Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 20 Medi 2011**

Amser:
**09:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:


**Bethan Webber**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8409
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk


## Agenda

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

**Sesiwn breifat**
Yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor, bydd eitemau 3 i 8 o'r cyfarfod yn cael eu trafod mewn sesiwn breifat, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(ix).

### 2. Cyflwyniad i gylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
(Tudalennau 1 - 2)

### 3. Cyflwyniad i gylch gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru (9.15 - 9.45) (Tudalennau 3 - 14)
Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol – Archwilio Perfformiad
Anthony Barrett, Partner Swyddfa Archwilio Cymru

### 4. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Dulliau o flaengynllunio gwaith y Pwyllgor (9.45 - 10.15) (Tudalennau 15 - 25)

### 5. Deddfwriaeth Archwilio (10.15-10.30) (Tudalennau 26 - 35)

### 6. Y wybodaeth ddiweddaraf am y broses gaffael (10.30 - 10.40)
Y wybodaeth ddiweddaraf am y broses gaffael sydd ynghlwm â phenodi archwilwyr i archwilio cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 7. Busnes Arall

Ymweliad

Y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn Archwilio.

**Eitem gyhoeddus (10.50-11.00)**

## 8. Materion sy'n ymwneud â llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (10.50 - 11.00) (Tudalennau 36 - 38)

PAC(4)-02-11 Papur 1

Bydd y Pwyllgor yn trafod dulliau o ystyried materion sy'n ymwneud â llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Eitem 2

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**PAC (4) 02-11 Papur 1**

# Materion sy'n ymwneud â llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Diben

1. Bydd y Pwyllgor yn trafod dulliau o ystyried materion sy'n ymwneud â llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn benodol, bydd yn trafod cynigion ar gyfer sefydlu Is-bwyllgor.

### Rheolau Sefydlog

2. Mae Rheol Sefydlog 17 yn galluogi pwyllgorau i sefydlu is-bwyllgorau. Mae Rheol Sefydlog 17.17 yn nodi y dylai'r penderfyniad i sefydlu is-bwyllgor nodi ei aelodaeth, ei gadeirydd, ei gylch gorchwyl a'i barhad. Yna, bydd yr is-bwyllgor yn cael ei reoli gan y Rheolau Sefydlog sy'n berthnasol i'r rhiant bwyllgor, a rhaid i unrhyw waith a wneir gan yr is-bwyllgor gael ei ystyried gan y rhiant bwyllgor cyn ei gyhoeddi. Caiff is-bwyllgor ei enwi yn ôl disgresiwn y rhiant bwyllgor.

3. Yn y Trydydd Cynulliad, cafodd dau is-bwyllgor eu sefydlu; yr Is-bwyllgor Darlledu gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, a'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd. Roedd y ddau is-bwyllgor hyn yn wahanol o ran eu diben a'u parhad. Sefydlwyd yr Is-bwyllgor Darlledu i wneud gwaith penodol ac roedd y cynnig a'i sefydlodd yn rhoi amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith. Cafodd yr Is-bwyllgor ei ddiddymu pan ddaeth yr ymchwiliad i ben. Sefydlwyd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gyda chylch gwaith ehangach ac adolygwyd cylch gorchwyl a gwaith yr is-bwyllgor yn flynyddol gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd.

**Y prif faterion i'w hystyried wrth benderfynu ar ddull o weithio**

*Aelodaeth*

4. O dan Reol Sefydlog 17.18, ni chaiff yr un is-bwyllgor gynnwys dim ond Aelodau o'r grŵp neu'r grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol, a rhaid i bob is-bwyllgor gynnwys o leiaf un Aelod o grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol.

5. Mae is-bwyllgorau blaenorol y Cynulliad wedi cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol, ac ystyrir hyn yn arfer gorau.

6. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cytuno i fod yn Gadeirydd yr is-bwyllgor.

*Braint*

7. Caiff busnes ffurfiol pwyllgorau ei gwmpasu gan fraint seneddol. Er ei bod yn fwy cyfyngedig na'r fraint seneddol yn San Steffan, mae'n diogelu Aelodau'r Cynulliad a'r tystion sy'n rhoi tystiolaeth lafar—ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Cynulliad—rhag camau difenwi.

*Trafodaethau*

8. Byddai'r is-bwyllgor yn cael yr un gwasanaethau cymorth[1] ag unrhyw bwyllgor yn y Cynulliad a bydd ganddo'r hyblygrwydd i benderfynu a yw'n dymuno gweithio mewn modd anffurfiol neu ffurfiol. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod gwaith y grŵp yn cael ei wneud mewn modd sy'n gweddu orau i'r dasg unigol ac nad yw'n cyfyngu ar ddewisiadau'r Pwyllgor.

[1] Mae gwasanaethau cymorth yn cynnwys cyfieithu ar y pryd, cyfieithu testun, darlledu a chofnodi (Cofnod y Trafodion), diogelwch a thywyswyr.

**Cynnig i sefydlu is-bwyllgor**

9. Mae cynnig drafft ar gyfer sefydlu'r is-bwyllgor yn ffurfiol i'w gael yn Atodiad A.

10. Bydd sefydlu'r is-bwyllgor o dan y Rheolau Sefydlog yn rhoi'r hyblygrwydd iddo i wneud y gwaith yn ffurfiol neu'n anffurfiol a bydd yn rhoi diogelwch braint seneddol a chefnogaeth gwasanaethau cymorth seneddol y Cynulliad iddo.

**Camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i:

- gytuno ar Gylch Gorchwyl yr is-bwyllgor
- cytuno ar deitl yr is-bwyllgor
- cytuno ar aelodaeth yr is-bwyllgor
- cytuno ar y cynnig drafft ar gyfer sefydlu'r is-bwyllgor

**<u>Atodiad A</u>**

**Cynnig drafft i sefydlu is-bwyllgor ar drefn lywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Reol Sefydlog 17.17**

*Bod y pwyllgor yn cytuno y dylid sefydlu is-bwyllgor o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ystyried materion yn ymwneud â'r drefn lywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru;*

*mai cylch gwaith yr is-bwyllgor hwnnw fydd cynghori'r Cynulliad ar benodi archwilwyr cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru, ystyried amcangyfrif a chyfrifon blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru; ystyried materion yn ymwneud â threfn llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd Cyffredinol Cymru; ystyried materion sy'n ymwneud ag enwebu a phenodi Archwilydd Cyffredinol Cymru; ystyried materion eraill a drosglwyddir iddo gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus;*

*bod aelodaeth yr is-bwyllgor yn cynnwys Darren Millar AC, (Insert: Labour AM), (Insert: Liberal Democrat) a (Insert: Plaid Cymru), gyda Darren Millar AC wedi'i ethol yn Gadeirydd.*